# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Yvonne Jardine | Adran Etholiadol: | Ward Treforys |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Euthum i gymorthfeydd rheolaidd, cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) a chyfarfodydd preswylwyr a rannwyd ymhlith cynghorwyr y ward. Ymdriniwyd â nifer o bryderon preswylwyr a oedd yn cynnwys tipio anghyfreithlon, baw cŵn a pharcio yn yr ardal.

Cynaliasom gyfarfodydd cyhoeddus â phreswylwyr i glywed eu pryderon ar geisio caniatâd cynllunio ar gyfer stad newydd o dai yn yr ardal ac ar unrhyw fater arall roeddent am ei drafod.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol | 3 | / | 7 | 43 | % |
| Y Cyngor | 12 | / | 18 | 67 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 1 | / | 2 | 50 | % |
| **CYFFREDINOL** | **18** | **/** | **31** | 58 | **%** |

| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgor Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed | 7 | / | 9 | 78 | % |
| Panel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 10 | / | 12 | 83 | % |
| Gweithgor Craffu Digwyddiadau Dinesig | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Gweithgor Craffu Ceffylau Wedi'u Clymu | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Panel Craffu Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 10 | / | 12 | 83 | % |
| **CYFFREDINOL** | **29** | **/** | **38** | 76 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Aelod o'r pwyllgorau canlynol: -
Panel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (GPTh), Panel Craffu Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (TGCO), Gwasanaethau Corfforaethol - fel rhan o'r pwyllgor hwn, euthum i'r prosiect Help Llaw'n ddiweddar ac roeddwn hefyd yn aelod o'r grwpiau tasg a gorffen canlynol:
Panel Ymchwiliad Craffu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Gweithgor Craffu Ceffylau wedi'u Clymu. Roeddwn (ac rwyf o hyd) yn Gynghorydd Hyrwyddo Hil, Crefydd, Cred a Threftadaeth y cyngor ac yn gadeirydd y fforwm Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) sy'n bont rhwng y cyngor a'r gymuned BME. Mae'r fforwm yn rhoi'r cyfle i bobl mewn cymunedau leisio'u hanghenion a'u pryderon; mae hefyd yn gyfle i'r cyngor hysbysu'r cymunedau am yr hyn sy'n digwydd.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Gyda'm cydweithwyr ward, gwnaethom ariannu yr arddangosfeydd blodau ar draws Treforys unwaith eto. Mae hyn wedi cael croeso cynnes yn y gorffennol ac rwyf wedi cael galwadau'n gofyn am gadarnhad y byddwn yn cael arddangosfeydd eto gan eu bod yn goleuo'r dydd i lawer o breswylwyr.

Roedd digwyddiad cynnau goleuadau'r Nadolig yn llwyddiant a diolch yn fawr i'r preswylwyr, y corau, yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r aelodau staff amrywiol a phawb a anwybyddodd y tywydd i'w wneud e'n llwyddiant. Gwerthwyd tocynnau raffl i godi arian tuag at gost atgyweirio'r cloc ar Gapel y Tabernacl ar Stryd Woodfield.

Euthum i agoriad cam cyntaf ailfodelu Ysgol Gynradd Pentre’r Graig. Rhoddodd y staff a'r plant groeso cynnes i mi a dangosodd rheolwr y prosiect y gwaith a oedd wedi'i gwblhau a'r gwaith parhaus.

Gyda'm cydweithwyr ward, rydym wedi dechrau gwaith ar ddod â marchnad ffermwyr i Stryd Woodfield sy'n dechrau ar ddydd Sadwrn cyntaf mis Gorffennaf. Bydd am gyfnod treial o dri mis i ddechrau, ond dydd Sadwrn cyntaf y mis ar ôl hynny.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

19/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
18/04/2016 - Arweiniad ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Cymunedol
23/02/2016 - Sesiwn Datblygu Aelodau Rhanbarthol - Anableddau
04/02/2016 – Cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Ysgolion (Hyfforddiant Llywodraethwyr)
09/12/2015 - Cyfrifoldeb Aelodau i Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr o dan y deddfau tai a chydraddoldeb newydd
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
29/10/2015 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Rwyf hefyd wedi cwblhau'r cyrsiau gorfodol canlynol ar-lein:
Iechyd a Diogelwch Sylfaenol, Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Tân, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Diogelu Oedolion.

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Roeddwn yn rhan o ethol yr AC dros Ddwyrain Abertawe trwy ddosbarthu taflenni, curo ar ddrysau a siarad â llawer o bobl yn yr ardal.

## Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 19/05/2016 |